G W E I T H D R E F N

# HYSBYSEBU

Unwaith y caiff recriwtio ei awdurdodi, bydd pob swydd wag yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog, a bydd rhaid cynnwys yr wybodaeth sylfaenol ganlynol:

- teitl swydd;
- lleoliad;
- oriau gwaith;
- tâl;
- amlinelliad o ddyletswyddau'r swydd;
- gofynion mynediad;
- gofynion y Gymraeg;
- lefel gwirio DBS;
- sut i ymgeisio;
- datganiad i ymdrin â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Bydd copïau o'r Disgrifiad Swydd a Manyleb y Person hefyd ar gael gyda'r hysbyseb.

Gellir hysbysebu swyddi gwag cymeradwy gan ddilyn un o'r patrymau canlynol:

- mewnol yn unig;
- mewnol ac allanol.

Efallai y bydd achlysuron pan fo swyddi yn cael eu hysbysebu i rai grwpiau mewnol yn unig; er enghraifft, pan fo tîm yn cael ei ailstrwythuro gellir clustnodi rolau gan olygu mai dim ond i staff mewnol y tîm hwnnw (a allai fod mewn perygl o gael eu diswyddo) y maent ar gael ar y dechrau. Mae'r gofynion sylfaenol ar gyfer cyhoeddi hysbysebion fel a ganlyn:

| **Ffurf** | **Hysbysebion Mewnol** | **Hysbysebion Allanol** |
|---|---|---|
| Ebost | √ | √ |
| Facebook y Gweithle | √ | √ |
| Crynodeb Wythnosol | √ | √ |
| Gwefan y Gwasanaeth | | √ |
| Llwyfannau cyfryngau cymdeithasol | | √ |
| Sefydliadau partner y Sector Cyhoeddus | | √ |
| Canolfan Waith | | √ |
| Rhaglen Newid Gyrfa ar gyfer y Lluoedd Arfog | | √ |

Os bydd hi'n anodd penodi rhywun i swydd wag, gall y Rheolwr Llinell, gyda chaniatâd wedi'i gofnodi ar y Ffurflen Gofyn am Swydd – cliciwch yma, wneud cais (os yw'r gyllideb yn caniatáu) i hysbysebu ar fyrddau hysbysebu swyddi a ffynonellau recriwtio arbenigol sy'n codi ffioedd, fel y bo'n briodol.

Bydd swyddi gwag newydd am ddiffoddwyr tân llawn amser ac ar-alwad yn cael eu hysbysebu yn fewnol ac yn allanol. Bydd swyddi Llawn Amser yr Ochr Weithredol ar lefel Rheolwr Criw neu uwch yn cael eu hysbysebu fel yr amlinellir yn y polisi Recriwtio ar gyfer Swyddi'r Ochr Weithredol gan gynnwys Dyrchafiadau Parhaol.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o nodiadau gwybodaeth sy'n cwmpasu'r maes pwnc hwn; mae dolenni i'r holl ddogfennau ar gael trwy glicio yn ôl i'r hafan.

| |
|---|
| Argymhellir bod y ddogfen hon yn cael ei hadolygu bob blwyddyn; fodd bynnag, efallai y bydd angen ei hadolygu'n gynt yng ngoleuni unrhyw newid rheoliadol a ddaw i rym yn y cyfamser. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog (Adran)** | Adnoddau Dynol | **Fersiwn** | 1.0 |
| **Adolygwyd ddiwethaf gan (deiliad y swydd)** | Pennaeth Adnoddau Dynol | **Dyddiad yr adolygiad diwethaf** | 7fed Rhagfyr 2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Dyddiad adolygu a argymhellir** | 7 fed Rhagfyr 2026 |